Rhif: WG26953

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Twf Gwyrdd Cymru:

# Cymorth Buddsoddi

Dyddiad cyhoeddi: **20 Tachwedd 2015**

Ymatebion erbyn: **29 Ionawr 2016**

OGL © Hawlfraint y Goron 2015

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynigion i gyflymu buddsoddi gwyrdd yng Nghymru. Rydym yn disgwyl y bydd o ddiddordeb arbennig i rai sy'n rheoli asedau a chyllid yn y sector cyhoeddus, datblygwyr, buddsoddwyr, a hefyd busnesau a diwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni. |
| **Sut i ymateb** | Anfonwch ymatebion i'r manylion cysylltu isod. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion cysylltu** | Am ragor o wybodaeth:<br>Twf Gwyrdd Cymru<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>greengrowth@wales.gsi.gov.uk<br><br>02920 801207 |
| **Diogelu data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl |

hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion. Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Rhagair



Rwyf am weld Cymru ar flaen y gad wrth hyrwyddo twf gwyrdd.

Mae twf gwyrdd yn mynd i'r afael ag un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Cymru: sut y gallwn fod yn fwy ffyniannus mewn ffyrdd amgylcheddol gynaliadwy a chymdeithasol gynhwysol. Gall twf gwyrdd ddiogelu a chreu swyddi a lleihau allyriadau carbon ar yr un pryd, gan wella bywydau pobl Cymru.

Mae'r gallu i ddenu buddsoddiad yn hanfodol i gyflawni twf gwyrdd. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried sut y gallwn gyflymu buddsoddiad gwyrdd i ddod â'r buddiannau i Gymru – sut y gallwn sbarduno twf mewn prosiectau effeithlonrwydd adnoddau, mewn ynni adnewyddadwy, a chynhyrchu ynni o wastraff.

Dywed Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus roi mwy o sylw i'r tymor hir, cynnwys pobl a chymunedau mewn dull mwy cydgysylltiedig i gyflawni'r hyn sydd ei angen ar Gymru. Mae twf gwyrdd yn gyfrwng hanfodol i sicrhau'r dyfodol hwn, i ddod â ffyniant a chydnerthedd i Gymru, yn ogystal â sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol ar raddfa fyd-eang.

Ochr yn ochr â dyletswyddau llesiant, mae Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn cynnwys darpariaethau i sicrhau gostyngiad sydd o leiaf 80% yn lefelau ein hallyriadau erbyn 2050. Bydd targedau statudol a chreu cyllidebau carbon yn helpu i sicrhau y cyflawnir hyn a byddant yn rhoi blaenoriaeth i gamau ar gyfer ein hagenda twf gwyrdd. Bydd llwybr pendant i ddadgarboneiddio hefyd yn rhoi sicrwydd ac eglurder ar gyfer busnesau a buddsoddwyr.

Pan fyddaf yn siarad â phobl Cymru - â gweithwyr cyhoeddus, arweinwyr busnesau, cymunedau a fy etholwyr - mae'n amlwg i mi fod gennym yr ymroddiad i gael y Gymru rydym am ei gweld. Pan fyddaf yn gweld y pethau gwych sydd eisoes wedi cael eu gwneud ledled y wlad credaf y gallwn, gyda'n gilydd, roi Cymru ar flaen y gad o ran twf gwyrdd.

Fodd bynnag mae heriau ymarferol ynghlwm wrth geisio sicrhau buddsoddiad gwyrdd yng Nghymru. Mae bylchau mewn gwybodaeth, mynediad at arbenigedd, sgiliau rheoli prosiectau a mynediad at gyllid i gyd yn faterion sy'n cyfyngu ar ddatblygiadau. Dyna pam yr wyf yn gobeithio datblygu'r cynigion hyn ymhellach i ategu'r rhaglenni sydd gennym ar waith eisoes i chwalu'r rhwystrau hyn, ac i gyflwyno newid sylfaenol mewn buddsoddiad gwyrdd yng Nghymru.

Nod yr ymgynghoriad hwn yw sicrhau dyfodol sicr i Gymru, gan fanteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil dyfodol carbon isel. Mae'n gyfle i annog buddsoddiad sy'n lleihau allyriadau carbon, sy'n creu buddiannau economaidd, ac sy'n talu ei gostau ei hun yn y tymor hir. Mae'n gyfle i fynd ati gyda'n gilydd i greu dyfodol gwell, cynaliadwy a mwy ffyniannus i Gymru. Mae'n gyfle y mae'n rhaid i ni ei gymryd, gyda'n gilydd.

Carl Sargeant AC
Gweinidog Cyfoeth Naturiol

# 1. Cefndir

## a. Beth yw Twf Gwyrdd?

Nod twf gwyrdd yng Nghymru yw meithrin twf economaidd, datblygiad a thegwch cymdeithasol tra'n sicrhau bod ein hasedau naturiol yn parhau i ddarparu'r adnoddau a'r gwasanaethau amgylcheddol y mae ein lles yn dibynnu arnynt. I wneud hyn rhaid inni sbarduno buddsoddiad ac arloesi, a fydd yn ategu twf a fydd yn gynaliadwy, yn arwain at gyfleoedd economaidd newydd, yn datblygu ein gweithlu ac yn adeiladu sgiliau, ac yn dosbarthu enillion twf yn deg drwy greu gwaith gwerth chweil. Nid cyfrifoldeb un neu ddwy'n unig o adrannau'r llywodraeth yw twf gwyrdd; yn hytrach mae'n agenda drawsbynciol y mae pawb yn gyfrifol amdani.

Fel elfen ganolog o hyn mae ein cynllun Cymorth Buddsoddi Twf Gwyrdd Cymru (GGWIS) yn rhoi pwyslais ar gamau ymarferol a fydd yn helpu i gyflawni'r dyhead am dwf gwyrdd ehangach ac mae'n cynnwys cyfres o ymyriadau gyda'r bwriad o helpu a chyflymu'n sylweddol y buddsoddiad i ddatblygu effeithlonrwydd adnoddau, ynni adnewyddadwy a seilwaith gwastraff. Bydd yn helpu'r sector cyhoeddus i gyflawni ei ddyletswyddau datblygu cynaliadwy, yn ogystal â chefnogi ymyriadau ac arloesi yn y sector preifat a'r trydydd sector sy'n cyfrannu at ein hamcanion ehangach .

Ein nod gyda GGWIS yw annog ystod eang o gyfleoedd i fuddsoddi mewn rhaglenni ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni a gwastraff. Nid yw wedi'i anelu at y cynigion mwyaf fel gorsaf bŵer Wylfa neu'r prosiectau biomas mawr sy'n cyfuno gwres a phŵer. Mae prosiectau o'r fath yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol ac maent ar raddfa ddigon mawr i allu cysylltu â marchnadoedd masnachol yn uniongyrchol. Maent hefyd o bwys strategol i Gymru, a byddwn yn parhau i gynnig cymorth i brosiectau o'r fath fesul achos i'w galluogi i lwyddo.

## b. Buddiannau

Gall buddsoddiad gwyrdd gyfrannu at ein hamcanion llesiant, gan arbed carbon, diogelu a chreu swyddi, tra'n arbed arian a chynhyrchu enillion ariannol.

Rydym yn cydnabod bod technolegau gwahanol yn amrywio'n sylweddol o ran buddiannau ac enillion gyda meysydd seilwaith doethach heb ddod ar y farchnad tan yn ddiweddar. Er hynny, o edrych arnynt yn eu cyfanrwydd, am bob £1m a fuddsoddir, amcangyfrifir fod buddsoddiadau mewn effeithlonrwydd ynni'n arwain at arbedion gwerth bron i £3.8m mewn biliau ynni dros gyfnod o 25 mlynedd. Gallai'r un buddsoddiad arbed 14,000 tunnell o $CO_2$, gan ddiogelu neu greu 10 o swyddi yn ystod y cyfnod datblygu.

Mae ffigurau tebyg ar gyfer ynni adnewyddadwy'n amcangyfrif enillion ar fuddsoddiad heb gynnwys costau cyfalaf a gweithredol o £777k am bob £1m a werir dros oes y prosiect, gan arbed tua 7,000 tunnell o $CO_2e$ a diogelu neu greu 5 o swyddi yn ystod y cyfnod datblygu.

Er 2008 mae prosiectau gwastraff yng Nghymru wedi canolbwyntio ar drin gwastraff domestig gan gynnwys trin gwastraff gweddilliol (ynni o wastraff) a threulio anaerobig. Hyd yma mae cyfleusterau sydd wedi'u datblygu drwy'r rhaglen wedi creu dros 400 o swyddi adeiladu ac oddeutu 60 o swyddi gweithredol.

Bydd datblygiad llawn y rhaglen yn arwain at arbedion o tua 3.8m tunnell o CO2 dros oes y contractau. O ran arbedion ariannol, yn achos y 5 prosiect treulio anaerobig sydd wedi cwblhau'r agweddau ariannol hyd yma, mae arbedion Llywodraeth Cymru yn £5.9m yn erbyn rhagamcan o gostau'r dyfodol. Yn achos sector cyhoeddus Cymru yn ei gyfanrwydd, mae'r arbedion yn £18.6m ar gyfer y prosiectau hyn dros 15 mlynedd.

Yn achos y prosiect gwastraff gweddilliol cyntaf i gau (Prosiect Gwyrdd), mae arbedion Llywodraeth Cymru yn £121.5m yn erbyn rhagamcan o gostau'r dyfodol. Yn achos sector cyhoeddus Cymru yn ei gyfanrwydd, mae'r arbedion yn £486.0m ar gyfer y prosiect hwn dros 25 mlynedd.

### c. Y Cyd-destun Polisi

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae dyletswydd gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod dyletswydd datblygu cynaliadwy newydd ar Weinidogion Cymru ac ar lawer o gyrff cyhoeddus ledled Cymru i'n rhoi ar drywydd mwy cynaliadwy. Yn Uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygu Cynaliadwy ym mis Medi 2013, mabwysiadodd 193 o aelod wladwriaethau'r adenda 2030 hanesyddol newydd yn swyddogol, gan gynnwys y 17 Amcan Datblygu Cynaliadwy (SDG) sy'n golygu goblygiadau pwysig i ddyfodol ein cymdeithasau, economïau a'n hamgylchedd. Cymru yw un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i'w cymeradwyo ac rydym yn defnyddio ein pwerau deddfwriaethol newydd i bennu amcanion uchelgeisiol, tymor hir sy'n adlewyrchu'r Gymru yr hoffem ei gweld. Mae'r rhain yn cynnwys Cymru fwy ffyniannus, cydnerth, iach, sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang a chyfartal, gyda chymunedau cydlynus.

Ein nod yw dadgarboneiddio'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae Bil yr Amgylchedd yn ategu'r darpariaethau newid hinsawdd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n mynd gam ymhellach drwy bennu sail statudol glir ar gyfer targedau interim a chyllidebau carbon i sicrhau bod llwybr eglur ar gyfer buddsoddiad a chyflenwi carbon isel yn y dyfodol. Bydd y fframwaith cyfreithiol hwn, sy'n cael ei ategu gan fesurau cyflawni ymarferol yr

**Astudiaeth achos – ystâd coedwigoedd Llywodraeth Cymru**

Cymru ar ran Gweinidogion Cymru ac mae'n ymestyn ar draws tua 6% (125 000 hectar) o arwynebedd tir Cymru. Mae'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys gwynt, biomas, solar, treulio anaerobig, bioethanol, bionwy a chynlluniau ynni dŵr.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae tri datblygiad ynni gwynt wedi cael eu cyflwyno ar yr ystâd sydd wedi golygu £600m o fuddsoddiad a 376 MW o drydan, gan arbed tua 425 000 tunnell o CO2 dros 25 mlynedd. Er mai prosiectau preifat yw'r rhain yn bennaf, rhwng 2008 a 2015 mae trefniadau opsiynau a phrydlesi mynediad wedi cynhyrchu £19m i goffrau cyhoeddus Cymru. Wrth i'r gwaith i ddatblygu'r prosiectau hyn gael ei gwblhau dylai'r prydlesi hyn gynhyrchu o leiaf £7m y flwyddyn i Lywodraeth Cymru yn ystod oes y prosiectau hyn.

ydym yn eu rhoi ar waith drwy Dwf Gwyrdd Cymry, yn ddatganiad clir o ymrwymiad Cymru i gyfrifoldeb byd-eang a datblygu cynaliadwy.

Buom yn ymgynghori'n ddiweddar ar ddatblygiad y Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni gyntaf ar gyfer Cymru sy'n ymdrin â phob sector. Roedd hon yn cydnabod bod angen ffynonellau cyllid amgen a mecanweithiau galluogi ar gyfer gwelliannau i'r seilwaith er mwyn ysgogi'r cynnydd mewn buddsoddiad sydd eu hangen arnom i gyflawni.

Un ôl rolau allweddol GGWIS yw sbarduno'r buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau cynnydd mewn effeithlonrwydd ynni adnoddau ar gyfer ein sectorau cyhoeddus a phreifat. Roedd y sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r ymagwedd hon.

Mae ein prosbectws *Twf Gwyrdd Cymru: Buddsoddi yn y dyfodol*[1] yn cyflwyno'r rhesymeg sydd wrth wraidd buddsoddiad gwyrdd yng Nghymru, gan gynnwys ein hadnoddau naturiol helaeth ac amrywiol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae'n tynnu sylw at y buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith rhwydweithiau dosbarthu trydan, nwy a dŵr dros yr 8 mlynedd nesaf, a'r rhaglen seilwaith gwastraff gwerth £750m sy'n cael ei harwain gan Lywodraeth Cymru.

Yn gryno, rydym yn disgwyl y bydd Twf Gwyrdd Cymru yn cyfrannu at ein canlyniadau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws y Llywodraeth. Bydd yn cyfrannu at ffyniant yn y dyfodol drwy annog buddsoddiad, gweithgarwch

[1] http://gov.wales/docs/desh/publications/140623-green-growth-cy.pdf

**Astudiaeth achos – gorsaf bŵer Western Wood**

Mae gorsaf bŵer Western Wood ym Mhort Talbot, sydd wedi costio £33m, yn cynhyrchu 14MWe y flwyddyn, gan arbed 45,000 tunnell o Garbon y flwyddyn. Mae wedi cynnal 200 o swyddi yn ystod y cam adeiladu ac mae'n awr yn cyflogi 20 o bobl yn uniongyrchol. Mae'n defnyddio biomas o ystâd y coedwig gyhoeddus, yn ogystal â choedwigoedd preifat yng Nghymru, gan gynnal swyddi eraill yn y sectorau preifat a chyhoeddus, yn ogystal ag incwm sector cyhoeddus.

economaidd a diogelu / creu swyddi. Bydd yn lleihau allyriadau carbon ac yn gwella cydnerthedd drwy leihau'r galw am ynni yng Nghymru a chynyddu faint o ynni carbon isel a gynhyrchir yn ogystal â chyflwyno technolegau, systemau a phrosesau doethach a fydd yn sail i ddatblygiadau. A bydd yn cyfrannu at well cydlyniad cymunedol ac iechyd drwy annog prosiectau a arweinir gan gymunedau sy'n golygu buddiannau lleol ac aer o ansawdd uwch.

### d. Maint y cyfle

Mae'r cyfle sy'n dod yn sgil buddsoddiad twf gwyrdd yng Nghymru'n sylweddol.

Canfu astudiaeth ragarweiniol o'r cyfleoedd sy'n codi yn sgil y prosiect mewn awdurdodau lleol ledled Cymru (gan weithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) werth tua £300m o brosiectau posibl, gan gynnwys cyfleoedd fel cynhyrchu solar ffotofoltäigc (PV), cynlluniau gwres lleol; effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau, a gosod goleuadau stryd LED newydd cost ac ynni isel.

Rydym yn awr yn ymestyn cwmpas y dadansoddiad hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r Ymddiriedolaeth Garbon i adolygu cyfleoedd effeithlonrwydd ynni yn y sector iechyd, ac mae wedi canfod buddsoddiad posibl gwerth tua £30m. Mae rhagor o gyfleoedd wedi eu canfod ym meysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru mewn trafnidiaeth, ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac uwch, Maes Awyr Caerdydd ac ar ystâd ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae'r cyfleoedd i fuddsoddi mewn gwastraff hefyd yn sylweddol. Mae ein strategaeth hyd yma wedi canolbwyntio ar roi sylw i'r prosesau a'r seilwaith ar gyfer ailgylchu a thrin gwastraff domestig. Bu hyn yn llwyddiannus iawn, er enghraifft, cafodd y gwaith ynni o wastraff cyntaf (Parc Trident yng Nghaerdydd) ei adeiladu, gyda buddsoddiad o £223m (gweler yr astudiaeth achos isod).

Mae cyfleoedd yn y dyfodol yn cynnwys dau gontract gwastraff bwyd ar gyfer partneriaethau rhwng awdurdodau lleol yn y De Orllewin a Blaenau'r

**Astudiaeth achos – seilwaith trin gwastraff**

Mae Prosiect Gwyrdd yn bartneriaeth rhwng cynghorau Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg. Gyda'i gilydd mae gwastraff trefol y pum awdurdod yn cyfrif am 40% o gyfanswm gwastraff trefol Cymru. Sefydlwyd y Bartneriaeth i gaffael contract tymor hir, cynaliadwy i drin gwastraff gweddilliol sy'n cynnig gwerth am arian i'r trethdalwr.

Yng Ngorffennaf 2013, cymeradwyodd Gweinidogion gyllid bob blwyddyn i'r awdurdodau lleol fel cyfraniad at y costau o ddargyfeirio dros 160,000 tunnell y flwyddyn o wastraff na ellir ei ailgylchu o safleoedd tirlenwi am gyfnod o 25 mlynedd.

Bydd Prosiect Gwyrdd yn helpu'r Llywodraeth i gyflawni uchelgais o ddim gwastraff i safleoedd tirlenwi trwy droi'r gwastraff yn ddigon o ynni ar gyfer tua 50,000 o gartrefi bob blwyddyn. Bydd yr ateb hwn yn creu budd blynyddol net y rhagwelir a fydd yn arbed yr hyn sy'n cyfateb i 51,392 tunnell o $CO_2$ o'i gymharu â pharhau i ddefnyddio safleoedd tirlenwi.

Ym mis Rhagfyr 2013 dyfarnodd y Bartneriaeth gontract i Viridor i ddarparu gwasanaethau, o Ebrill 2016, mewn cyfleuster a fyddai'n cael ei adeiladu ym Mharc Trident yng Nghaerdydd. Creodd y gwaith adeiladu hyd at 360 o swyddi, gyda 36 o swyddi llawn amser yn cael eu creu i redeg y cyfleuster, yn ogystal â chynnig prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi. Agorwyd y cyfleuster yn swyddogol gan Brif Weinidog Cymru ym mis Ebrill 2015.

Yn ogystal â chreu swyddi lleol, bydd y contract yn helpu i arbed arian i'r cynghorau. Gan fod y gost o anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi'n dal i godi, rhagwelir y bydd Prosiect Gwyrdd yn arbed tua £500 miliwn i'r awdurdodau partner yn ystod y 25 mlynedd nesaf.

Cymoedd, a fydd yn cael eu cyflwyno i'r farchnad ddiwedd 2015 a dechrau 2016 yn y drefn honno. Mae partneriaeth gwastraff gweddilliol Gogledd Cymru yn gobeithio dyfarnu contract 25 mlynedd i'r cynigydd a ffefrir Wheelabrator Technologies Inc. yn 2016. Mae'r rhaglen yn ystyried cyfleoedd i annog datblygiad rhagor o seilwaith i drin gwastraff masnachol a diwydiannol yn unol â darpariaethau Bil yr Amgylchedd.

Fel yn achos y sector cyhoeddus mae cyfleoedd pwysig i ddiwydiant hefyd i leihau costau a charbon drwy fuddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni, a buddsoddi i leihau gwastraff. Mae buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat mewn ynni adnewyddadwy wedi digwydd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, gan gynnwys  gwynt, biomas a PV solar. Mae capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru bellach yn fwy na 2.2GW, sy'n arbed mwy na 4 miliwn tunnell o $CO_2$ bob blwyddyn.

Rydym hefyd wedi gweithio â chymunedau i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy, ac rydym wedi canfod prosiectau a allai fod yn werth cyfanswm o £11 miliwn o fuddsoddiad ledled Cymru. O ganlyniad i’n cefnogaeth, rydym yn gweld prosiectau cydberchnogaeth yn datblygu rhwng cymunedau, awdurdodau lleol a busnesau.

## 2. Cymorth Buddsoddi Twf Gwyrdd Cymru: nod ac amcanion

Rydym wedi nodi isod nod ac amcanion posibl ar gyfer GGWIS. Wrth wneud hyn ein bwriad yw dangos yn glir beth fydd pwyslais y cynllun.

### a. Ein nod

Cynyddu buddsoddiad gwyrdd yng Nghymru er mwyn cyflawni buddiannau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, gan osgoi o leiaf 2,460,000 tunnell o allyriadau CO2 yn ystod oes y rhaglen.

### b. Ein hamcanion

- Cyflymu/cynyddu cyfanswm y buddsoddiad mewn seilwaith ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd adnoddau a gwastraff yng Nghymru a fydd yn arwain at ostyngiadau carbon ac yn cynyddu effeithlonrwydd adnoddau.
- Cyfalaf ysgogi o ffynonellau eraill i leihau allyriadau carbon a chynyddu'r buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n dod yn sgil buddsoddiad Llywodraeth Cymru.
- Sicrhau bod buddsoddiad cyfalaf ar draws portffolio'r rhaglen yn hunangynhaliol yn y tymor hir, ac sydd o leiaf yn talu'r costau gwreiddiol.

### c. Ein Pwyslais Arfaethedig

Yn adran 1 rydym wedi nodi'r buddiannau y gellir eu sicrhau drwy fuddsoddi mewn seilwaith ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni a gwastraff. Rydym hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth o faint posibl y cyfle, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, o safbwynt prosiectau'r gorffennol a'r dyfodol.

Rydym yn rhagweld rhaglen 25 mlynedd gyda chyfnod (5 mlynedd) o fuddsoddiad cychwynnol gan y llywodraeth. Byddwn yn ymdrechu ategu'r buddsoddiad cychwynnol hwn gyda chyllid sbarduno lle gellir ei sicrhau a'i ddefnyddio. Wrth i fenthyciadau neu brosiectau aeddfedu, byddai'r buddsoddiadau cychwynnol hyn yn cael eu hailgylchu i gynhyrchu buddiannau pellach, a fyddai yn y pen draw yn ad-dalu'r cyfalaf gwreiddiol.

Mae graddfa'r arbedion $CO_2$ wedi'i meintioli yn seiliedig ar gyfanswm buddsoddiad tybiedig o £500m (byddai llawer ohono'n dod o ffynonellau allanol) gyda buddiannau'n cronni dros gyfnod o 25 mlynedd. Mae'r cyfrifiad carbon yn defnyddio data meincnod cyhoeddedig ac mae'n tybio cymysgedd o dechnolegau.

Wrth gyflwyno'r cynigion hyn, rydym yn cydnabod bod data meincnod cyfredol yn dangos y gellid optimeiddio arbedion carbon pe bai pwyslais y buddsoddiad yn fwy cyfyngedig, ar effeithlonrwydd ynni'n unig. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y ffigurau hyn yn debygol o newid dros gyfnod hir (er enghraifft o ganlyniad i ostyngiad yng nghostau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac wrth i seilwaith, technolegau, prosesau a systemau mwy effeithiol gael eu cyflwyno yn y farchnad) a bod pwyslais ehangach yn golygu manteision eraill. Yn fwyaf penodol mae pwyslais ehangach yn cynyddu'r cyfleoedd buddsoddi a nifer y prosiectau sydd ar gael, ac mae'n cael ei effeithio'n llai gan benderfyniadau technegol a pholisi (fel y newidiadau diweddaraf i gymorthdaliadau), ac mae'n debygol o gynnig y cyfle gorau i ddenu buddsoddwyr allanol.

***Cwestiwn 1***
***A ydych chi'n cytuno â'r pwyslais ar brosiectau seilwaith ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd adnoddau (gan gynnwys effeithlonrwydd ynni) a gwastraff?***

# 3. Cynlluniau Cyfredol

Yn ychwanegol at ymyriadau deddfwriaethol a pholisi, mae ystod o raglenni a chynlluniau ymarferol ar waith eisoes i annog cefnogaeth i fuddsoddiad gwyrdd yng Nghymru. Disgrifir y rhain isod ac maent at ei gilydd yn cynnwys ystod o ymyriadau i gynorthwyo datblygiad prosiectau yn y camau cyntaf a datblygiadol a chymorth ariannol cyfredol.

### a. Cymorth i ddatblygu prosiectau

***Cymru Effeithlon (REW)***

Mae REW yn cynnwys tair elfen allweddol: canolfan gyswllt, fframwaith gwasanaethau cynghori a chymorth, a chymorth a ddarperir gan reolwyr client. Am ragor o wybodaeth am wasanaeth Cymru Effeithlon, ewch i http://resourceefficient.gov.wales/.

Mae'r ganolfan gyswllt yn gyfrifol am bresenoldeb REW dros y ffôn ac ar-lein, ac am reoli gwybodaeth ar alw am y gwasanaeth. Mae'n cydweithio'n glos â gwasanaethau Busnes Cymru a Chyswllt Ffermio, i sicrhau bod cyngor a chymorth ar effeithlonrwydd adnoddau'n cael ei ddarparu i bob sector.

Mae'r contract fframwaith ar gael i gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n cynnwys cyflenwyr ag arbenigedd mewn cynghori a chymorth ym meysydd effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu ynni, effeithlonrwydd dŵr a lleihau gwastraff, yn ogystal â defnydd o wasanaethau ymchwil a gwerthuso. Mae cymorth rheolwyr client ar gael i helpu cleientiaid i gynllunio a gweithredu gwelliannau, ac i gomisiynu gwasanaethau arbenigol yn ôl y galw.

***Cymorth gweithrediadol twf gwyrdd***

Ochr yn ochr â Chymru Effeithlon, rydym wedi darparu cymorth ychwanegol i'r sector cyhoeddus drwy gyllid grant Partneriaethau Lleol (LP). Nod hyn yw ategu gwaith technegol Cymru Effeithlon drwy gynnig arbenigedd masnachol, contractiol, caffael a rheoli contractau i gyrff cyhoeddus. Nod y gwasanaethau hyn yw cyflymu a diddymu risgiau mewn prosiectau, cynorthwyo i ddatblygu achosion busnes, profi'r farchnad a dilyn cyfleoedd i optimeiddio telerau masnachol prosiectau, gan gynnwys cyfleoedd i agregu ar gyfer graddfeydd.

***Re:FIT***

I ategu'r cymorth hwn ymhellach, rydym wedi cyflwyno cais i Gymorth Ewrop ar gyfer Ynni Lleol (ELENA), cynllun ar y cyd rhwng y Comisiwn Ewropeaidd a Banc Buddsoddi Ewrop, i helpu cyrff y sector cyhoeddus i sicrhau contractau perfformiad ynni drwy'r rhaglen RE:FIT. Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd y rhaglen waith £1.7 miliwn hon yn sbarduno o leiaf ugain gwaith ei gwerth

mewn buddsoddiadau, gan warantu arbedion mewn costau ynni i gyrff cyhoeddus a chynnig cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi i gontractwyr o Gymru.

***Gwasanaeth Cymorth Ynni Adnewyddadwy (RESS)***

Rydym wedi bod yn helpu cymunedau i fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy ers pum mlynedd, ac er bod y prosiectau hyn sy'n cael eu harwain gan wirfoddolwyr yn cymryd amser i ddatblygu, maent yn arwain at fuddiannau uniongyrchol i bobl leol. Mae gwerth buddsoddiadau'r prosiectau sydd yn yr arfaeth oddeutu £34 miliwn. Bydd gwasanaeth newydd yn cael ei lansio ddechrau'r flwyddyn nesaf, a fydd yn adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd eisoes, a fydd yn cynnig cymorth i'r nifer cynyddol o osodiadau ynni adnewyddadwy bach yng Nghymru, gyda phwyslais ar gadw buddiannau'r datblygiadau yng Nghymru, er mwyn cynorthwyo'r cymunedau gyda'r amddifadedd mwyaf. Bydd y gwasanaeth yn rhoi pwyslais ar y blaenoriaethau canlynol:

- Cyflawni'r prosiectau sydd yn yr arfaeth ar hyn o bryd o ganlyniad i'r rhaglen Ynni'r Fro;
- Canfod safleoedd ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol newydd, a datblygu partneriaethau cyflenwi i sicrhau bod y prosiectau'n cael eu cwblhau;
- Parhau i ddatblygu'r sail dystiolaeth ar yr angen am gymorth, a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen fwy a fydd yn cael ei hariannu o dan y rhaglen gyllido Ewropeaidd newydd.

Bydd y pwyslais ar fusnesau bach a chanolig, mudiadau cymunedol a mentrau cymdeithasol yn bennaf, gan ddarparu cyngor, cymorth a mynediad at wasanaethau technegol ar draws sbectrwm yr angen i ddatblygu prosiectau o'r fath..

***Datblygiad Byw'n Glyfar***

Mae Byw'n Glyfar yn canolbwyntio ar hwyluso datblygiad atebion arloesol i broblemau adnoddau ynni. Mae fframwaith wedi'i ddatblygu fel arweiniad i'r weledigaeth, y cwmpas a'r egwyddorion ar gyfer arddangoswyr a fydd yn helpu i ffurfio ein dyfodol ac mae'n disgrifio ystod o rolau y mae rhanddeiliaid allweddol yn eu rhagweld y dylai Llywodraeth Cymru eu chwarae i helpu eu datblygiad. Bydd Byw'n Glyfar yn cyfrannu at, ac yn helpu i ddatblygu gweithgareddau Twf Gwyrdd Cymru.

### b. Cymorth ariannol cyfredol

***Sefydliadau sector cyhoeddus***

Mae amrywiaeth o gynlluniau cymorth yn weithredol ar hyn o bryd i annog buddsoddiad ychwanegol yn y sector cyhoeddus. Yn ychwanegol at grantiau

craidd, gall cyrff cyhoeddus fanteisio ar grantiau ad-daladwy di-log neu fenthyciadau llog isel. Mae'r mynediad at y rhain yn amrywio yn ôl y pwerau sydd ar gael iddynt a'r rheolau cyfrifyddu.

Mae gan gyrff fel awdurdodau lleol, addysg uwch a phellach, bwerau benthyca, ac yn achos awdurdodau lleol, mae ganddynt fynediad at fenthyciadau am gost cymharol isel drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) yn ogystal â prudential borrowing a ffynonellau preifat eraill. Fodd bynnag, nid yw'r rhain ar gael i bawb. Ni all Byrddau Iechyd, er enghraifft, fenthyca i ariannu seilwaith na gwelliannau eraill. Ar hyn o bryd ni all Llywodraeth Cymru fenthyca arian, er y bydd yn gallu benthyca hyd at £500m o 2018 ymlaen.

Hyd yn oed pan fydd cyrff cyhoeddus yn gallu benthyca, gall cyfyngiadau cyfrifyddu gyfyngu ar eu gallu i gael gafael ar arian o ffynonellau sbarduno. Os yw corff, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, yn rhan o gyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru, bydd unrhyw fenthyciadau'n cyfrif yn erbyn terfynau gwariant. Effaith hyn yw bod pob punt a fenthycir yn golygu y bydd punt yn llai o grant y llywodraeth ganolog ar gael ac felly mae cyllid ar gyfer cyrff â chyfrifon sydd wedi'u cyfuno â Llywodraeth Cymru wedi'u cyfyngu i grantiau uniongyrchol, neu grantiau ad-daladwy drwy fuddsoddi i arbed.

Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn effeithio ar gyrff fel awdurdodau lleol (gan gynnwys ysgolion), addysg uwch a phellach sydd y tu allan i gyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru.

Ar lefel ymarferol, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth gyda buddsoddiad gwyrdd, ar ffurf mwy nag £20m mewn benthyciadau di-log i'r sector cyhoeddus yn y blynyddoedd diweddar a chyfredol. Mae mesurau'n cynnwys £9m o fenthyciadau di-log ar gyfer effeithlonrwydd ynni drwy SALIX[2], hyd at £11m mewn arian 'buddsoddi i arbed'[3] eleni a £2.9m mewn cymorth cyfalaf i brosiectau cymunedol drwy RESS. Mae'r holl gronfeydd hyn yn cael eu hailgylchu i gynnig mwy o fuddiannau fel grantiau neu fenthyciadau a ad-delir – pob 5 mlynedd ar gyfartaledd.

### *Mentrau yn y sector preifat*

Mae cymorth ymarferol a chyllido ar gyfer datblygiad busnesau ledled Cymru ar gael gan Busnes Cymru. Mae hwn yn gymorth datblygu busnes nad yw'n

---

[2] Mae Salix Finance Ltd yn cynnig 100% cyfalaf di-log i'r sector cyhoeddus i wella eu heffeithlonrwydd ynni ac i leihau eu hallyriadau carbon.

[3] Mae cyfanswm buddsoddi i arbed eleni yn £25m; mae'r £11m yn cyfeirio at ddyraniadau sy'n gysylltiedig ag ynni.

targedu mesurau effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy na gwastraff yn benodol, er bod modd i fusnesau gael cymorth wedi'u lunio'n bwrpasol ar eu cyfer gan Gymru Effeithlon. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cynllunio cymorth i fusnesau'n amodol ar yr arian sydd ar gael drwy drefniadau cymorth eraill; er enghraifft ei Chynllun Diogelu'r Amgylchedd drwy'r Comisiwn Ewropeaidd.

Mae busnesau hefyd wedi gallu manteisio ar fenthyciadau di-log ar gyfer gweithgarwch effeithlonrwydd ynni, drwy gynllun benthyciadau sy'n cael ei redeg ar ran Llywodraeth Cymru o dan drefniadau grant blaenorol. Mae'r gronfa'n weithredol o hyd ac mae ganddi tua £4m ar hyn o bryd, gyda'r arian yn cael ei ailgylchu wrth i fenthyciadau gael eu had-dalu.

Gall cymorth busnes gael ei ddarparu hefyd drwy gronfeydd Ewropeaidd (gweler isod).

***Cyllid Ewropeaidd***

Mae cyllid ERDF am y cyfnod 2014-2020 yn cynnwys dros £220m ar gyfer Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni ac Ymchwil ac Arloesi ar gyfer carbon isel, ynni a'r amgylchedd. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys cymorth ar gyfer Ynni Adnewyddadwy'r Môr, ynni cymunedol, effeithlonrwydd ynni a'r rhaglen Carbon Isel, Ymchwil ac Arloesi Ynni a'r Amgylchedd. Hefyd mae ffynonellau eraill o gyllid Ewropeaidd ar gael sy'n canolbwyntio ar ddatblygiadau adnoddau ac ynni gan gynnwys Horizon 2020, Interreg ac Urban Living.

# 4. Rhwystrau rhag cynnydd

Er gwaethaf yr ymyriadau sydd ar waith, fel y disgrifiwyd yn Adran 3, mae ymchwil wedi dangos bod nifer o fethiannau yn y farchnad sy'n llesteirio buddsoddi ac sy'n berthnasol i'r nodau a'r amcanion a nodwyd yn Adran 2. Rydym wedi gwneud gwaith amrywiol i ganfod natur y rhwystrau hyn yn ogystal ag ystyried opsiynau a fyddai'n eu dileu neu'n eu lliniaru.

Gwnaethpwyd hyn drwy waith wedi'i gomisiynu[4][5], gwaith a gyhoeddwyd yn allanol, trafodaethau â buddsoddwyr a derbynwyr posibl, a thrafodaeth ag eraill sy'n gwneud gwaith tebyg (Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Cronfa Werdd Llundain, y Banc Buddsoddi Gwyrdd a Banc Buddsoddi Ewrop). Bydd y dystiolaeth a goladwyd drwy'r broses hon a thrwy'r ymgynghoriad hwn yn cael eu dwyn ynghyd drwy ddatblygiad achos busnes.

Mae'r dystiolaeth a goladwyd hyd yma wedi canfod nifer o rwystrau, gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i, capasiti'r grid a mynediad, cynllunio a rheoliadau, cyllid a chymorth i brosiectau. Mae mesurau eisoes ar waith i helpu i roi sylw i broblemau'n ymwneud â'r grid yn dilyn trafodaethau â'r Grid Cenedlaethol, Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu, a'n rhaglen Byw'n Glyfar, ac rydym wedi ac rydym yn parhau i fwrw ymlaen â deddfwriaeth newydd ym meysydd cynllunio, yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy. Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU, i roi sylw i faterion cynllunio a rheoleiddio.

Mae'r ymgynghoriad hwn felly'n canolbwyntio ar ddau rwystr allweddol penodol y credwn y gallai ymyriadau ychwanegol ar yr adeg hon wella canlyniadau:

- Darparu sgiliau datblygu prosiectau a chymorth galluogrwydd sy'n canolbwyntio ar gamau cynnar datblygiadau a datblygu cynigion 'barod ar gyfer buddsoddi' ac achosion busnes.
- Gwella mynediad at gyfalaf a chyllid refeniw.

---

[4] Wales Resource Efficiency Finance Mapping: A final report by Regeneris Consulting, Old Bell 3 and Quantum Strategy and Technology. 2014

[5] LP review

Mae'r gwaith a wnaethpwyd hyd yma wedi canfod nifer o rwystrau o dan y ddau bennawd isod, gan gynnwys:

### *Darparu cymorth*

Gall prosiectau buddsoddiad gwyrdd fod yn gymhleth ac maent yn gofyn am sgiliau a gallu arbenigol. Mae'r rhwystrau cyffredin rhag denu buddsoddiad a ganfuwyd yn ein trafodaethau a'n tystiolaeth yn cynnwys:

- Cymhwysedd a galluogrwydd (gan gynnwys sgiliau rheoli prosiectau, technegol, cyfreithiol, achos busnes / cyfrifyddu a masnachol)
- Methiannau cydlynu. Diffyg cydlynu o fewn a rhwng gwahanol rannau o'r sectorau cyhoeddus a dielw. Mae hon yn broblem fawr pan fo maint y galw'n annigonol i sicrhau darbodion maint ac i ddenu cyllid
- Cyfyngiadau sefydliadol– e.e. uwch reolwyr yn cael eu hannog i beidio â gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiad oherwydd diffyg ffrwd refeniw gweladwy o fuddsoddiad (lle mae'n cynhyrchu arbedion yn hytrach nag incwm newydd);
- Cystadleuaeth rhwng blaenoriaethau (yn enwedig ble mae blaenoriaethau adnoddau a buddsoddi'n cystadlu â dyletswyddau statudol)
- Ffactorau amgylcheddol allanol – analluu i ymgorfforu costau a buddiannau amgylcheddol ehangach mewn penderfyniadau buddsoddi.

Mae cymhwysedd a galluogrwydd yn broblem arbennig yn y sector cyhoeddus.

### *Gwella mynediad at gyllid cyfalaf a refeniw*

- Yn achos prosiectau mawr, £20m ac uwch, mae'r farchnad yn debygol o ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau sy'n fasnachol hyfyw os oes achos buddsoddi wedi'i ddatblygu'n briodol[6].
- Mae mynediad at gyllid masnachol yn llawer anos i brosiectau bach o ganlyniad i gostau gorbenion fel diwydrwydd dyladwy a llai o ddiddordeb ymhlith buddsoddwyr.
- Mae cyfundrefnau presennol fel cyllid SALIX[7] yn cynnig cyfalaf 100% yn ddi-log, ond mae wedi'i gyfyngu i'r sector cyhoeddus yn unig ac i'r sefydliadau hynny a all fenthyca (mae hynny'n eithrio Byrddau Iechyd yng Nghymru, er enghraifft). Mae grantiau uniongyrchol wedi bod ar gael yn y gorffennol, ond nid ydynt yn debygol o fod yn gynaliadwy yn y dyfodol o gofio'r pwysau ar gyllid cyhoeddus.

---

[6] Green Investment Bank: Strategic Report 2014

[7] http://salixfinance.co.uk

- Mae mynediad at gyllid masnachol yn anos ar gyfer prosiectau cam cynnar, yn enwedig cyn cael caniatâd cynllunio a'r cydsyniadau angenrheidiol.
- Yn achos ynni adnewyddadwy, mae'r system gymorthdaliadau wedi bod yn ffactor pwysig i wneud buddsoddiadau'n hyfyw. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynglŷn â lefelau cyllido ac argaeledd cymorthdaliadau yn y dyfodol yn effeithio ar gyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.
- Yn y sector cyhoeddus mae llawer o gyfleoedd nad ydynt yn cael eu cyflawni. Mae prosiectau twf gwyrdd yn gorfod cystadlu am arian â dyletswyddau statudol o fewn sefydliadau. Mae'n bosibl hefyd bod cyfyngiadau yn y sector preifat. Mae astudiaeth Mapio Cyllid Effeithlonrwydd Adnoddau Cymru[8] ac adroddiadau APSE[9] yn dangos bod refeniw a chyfalaf yn cyfyngu ar ddatblygiad rhai prosiectau.
- Yn hanesyddol mae polisi a systemau cymorthdaliadau'r DU wedi helpu datblygiad seilwaith effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag mae amledd a maint newidiadau i systemau cymorthdaliadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi effeithio ar hyder datblygwyr ac maent yn ddigon i amharu ar gynnydd.

***Cwestiwn 2***
***A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hasesiad o'r rhwystrau a nodwyd? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ateb.***

***Cwestiwn 3***
***A ydych chi'n ymwybodol o rwystrau eraill sy'n gysylltiedig â darparu cymorth a gwella mynediad at gyllid y dylem fod yn ymwybodol ohonynt?***

***Cwestiwn 4***
***A oes camau penodol mewn prosiectau – h.y. datblygu, adeiladu neu weithredu – lle mae cael gafael ar gyllid yn broblem? Disgrifiwch unrhyw broblemau.***

---

[8] Wales Resource Efficiency Finance Mapping: A final report by Regeneris Consulting, Old Bell 3 and Quantum Strategy and Technology. 2014

[9] APSE Briefing 14/47. Barriers to Local Authority involvement in municipal energy schemes, Rhagfyr 2014

# 5. Ymyriadau ariannol

Ochr yn ochr â chymorth i ddatblygu prosiectau, rydym wedi bod yn gwerthuso'r angen am gymorth buddsoddi, a hefyd yr opsiynau ar gyfer ei ddarparu. Mae hwn wedi'i ddatblygu fel y'i disgrifiwyd yn Adran 4.

Mae Adran 3 wedi disgrifio'r cymorth ariannol a'r cymorth ar gyfer datblygu prosiectau sydd ar gael yn awr. Mae'r cynlluniau hyn yn bwysig, ac rydym yn gweld canlyniadau llwyddiannus. Fodd bynnag, mae rhagor o fuddsoddiad gwyrdd mewn seilwaith yn parhau'n gyfle pwysig yng Nghymru, i ddiwallu ein dyheadau i ddadgarboneiddio, i leihau costau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, ac i hybu datblygu economaidd a diogelu / creu swyddi.

Ar sail ein hymchwil a'r sail dystiolaeth sy'n esblygu, credwn fod ymyriad pellach yn briodol. O gofio'r pwysau ariannol ar y sector cyhoeddus, mae angen atebion mwy arloesol i gynyddu lefel gyffredinol y buddsoddiad sydd ar gael.

Pan fydd yn ymarferol mae dull sy'n ysgogi cyllid gan drydydd partïon fel y Banc Buddsoddi Gwyrdd a Banc Buddsoddi Ewrop felly'n ddymunol, gan gynyddu'r buddiannau anariannol (sydd er enghraifft yn ymwneud â charbon a swyddi). Mae ein trafodaethau hyd yma wedi dangos y gellid sicrhau cyllid ar gyfraddau cystadleuol dros ben ar yr amod bod digonedd o brosiectau digon mawr yn ogystal ag argaeledd cyllid craidd Llywodraeth Cymru.

### a. Natur yr opsiynau posibl

***Grant uniongyrchol nad oes yn rhaid ei ad-dalu***

Ni chredwn fod grantiau nad oedd yn rhaid eu had-dalu ar gyfer cynigion "buddsoddadwy" a lle mae sefydliadau'n gallu defnyddio llwybrau buddsoddadwy i'r farchnad, yn gynaliadwy fel grantiau uniongyrchol nad oes yn rhaid eu had-dalu yn hinsawdd ariannol presennol y sector cyhoeddus. Nid ydym felly'n cynnwys hyn fel rhan o'n cynigion.

***Grantiau uniongyrchol ad-daladwy (e.e. Buddsoddi i Arbed) a benthyciadau***

Ar hyn o bryd mae sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru'n cael gwneud cais am gyllid 'buddsoddi i arbed' i alluogi prosiectau i fynd yn eu blaen. Yn y flwyddyn gyfredol mae £11m ar gael drwy'r cynllun Buddsoddi i Arbed ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig ag ynni. Ar hyn o bryd mae prosiectau o'r fath yn gofyn am gyfraniad o 25% gan y corff derbyn, ac fe'u rhoddir ar log o 0%.

Yn achos Llywodraeth Cymru, a sefydliadau gyda chyfrifon cyfunol â Llywodraeth Cymru, efallai mai grantiau uniongyrchol neu ad-daladwy fydd yr unig opsiwn sydd ar gael oherwydd y cyfyngiadau cyfrifyddu sy'n gysylltiedig â

benthyca. Oherwydd hyn, ac o gofio bod yr arian sydd ar gael yn gyfyngedig, efallai y byddai'n synhwyrol i flaenoriaethu grantiau uniongyrchol ad-daladwy i gyrff o'r fath.

Gall benthyciadau ad-daladwy gael eu rhoi gan Lywodraeth Cymru hefyd, yn amodol ar ystyriaethau budd y cyhoedd a rheolau cymorth gwladwriaethol. Gellir pennu cyfraddau llog fesul achos, yn ddibynnol ar fuddiannau ehangach a risg y prosiect, neu eu safoni fel rhan o gynllun. Gellir rhoi benthyciadau o'r fath naill ai'n uniongyrchol, neu eu rheoli drwy gyfrwng 'mantolen' a wneir drwy gorff fel Cyllid Cymru.

Mae benthyciadau a grantiau uniongyrchol ad-daladwy ill dau'n fuddiol o'u cymharu â grantiau nad ydynt yn ad-daladwy, am y rheswm amlwg y gellir ailgylchu'r arian wrth iddo gael ei ad-dalu, gan alluogi buddsoddiadau a buddiannau i gael eu lluosi dros amser. Fel y nodwyd eisoes, mae tua £29m o grantiau neu fenthyciadau ad-daladwy yn cael eu defnyddio a / neu ar gael ar hyn o bryd.

Er hynny, wrth ystyried maint posibl y galw, y pwysau ar gyllid cyhoeddus, a'r angen i barhau â chyllid grant ad-daladwy i sefydliadau na allant gael gafael ar gyllid benthyciadau, nid yw'n debygol y bydd y dull hwn yn unig yn diwallu maint y cyfle.

### ***Buddsoddiad uniongyrchol o farchnadoedd masnachol – dull prosiect wrth brosiect***

Mae nifer o reolwyr cronfeydd buddsoddi sy'n arbenigol mewn cynnyrch twf gwyrdd. Byddai modd i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ei hymdrechion ar weithio â'r farchnad i baru prosiectau â chynnyrch buddsoddi (benthyciadau ac ecwiti) ac o bosibl gweithio â chyllidwyr strategol (fel Banc Buddsoddi Ewrop) i greu cynnyrch fframwaith benthyciadau Cymreig.

Mae'n debyg y byddai benthyciadau o ffynonellau o'r fath ar gyfraddau masnachol, a byddent yn ôl pob tebyg yn amodol ar gyfyngiadau graddfa presennol (er y gallem geisio cynhyrchu cynigion cyfunol mwy i'r farchnad drwy agregu prosiectau sydd gennym yn yr arfaeth).

Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai cyllid benthyca'n canolbwyntio ar brosiectau sector preifat yn bennaf (ni allai sefydliadau cyhoeddus gyda chyfrifon sydd wedi'u cyfuno â Llywodraeth Cymru gymryd rhan ac mae'n bosibl y gallai awdurdodau lleol gael gafael ar gyllid benthyca ar gyfraddau is drwy Public Works Loan Board). Ni fyddai dull o'r fath yn debygol o fod yn achos pryder o safbwynt cymorth gwladwriaethol, oherwydd y telerau masnachol a fyddai'n debygol o fod yn weithredol.

O safbwynt y Llywodraeth mae hwn yn ddull cost isel, risg isel. Fodd bynnag, mae'n 'fusnes fel arfer', ac ni fyddai'n debygol o olygu newid sylfaenol i argaeledd na chost cyllid ar gyfer Twf Gwyrdd yng Nghymru.

Gallai'r sector cyhoeddus hefyd weithio â'r sector preifat mewn cyd-fentrau neu brosiectau sy'n seiliedig ar ecwiti. Enghreifftiau o drefniadau o'r fath yw'r trefniadau prydlesi ar gyfer datblygiadau fferm gwynt ar yr ystâd gyhoeddus sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru.

### *Creu cyfrwng a fyddai'n ysgogi buddsoddiad*

Mae'r opsiwn hwn yn rhagweld creu cyfrwng buddsoddi (cronfa, cronfa o gronfeydd neu endid cyfreithiol arall) gyda chyfraniad Llywodraeth Cymru yn ysgogi cronfeydd pellach o gyfeiriad buddsoddwyr eraill. Mae'n debyg y byddai'r gronfa neu'r cronfeydd ar ffurf partneriaeth gyfyngedig, er y gellid ystyried opsiynau eraill, a byddai'n dilyn meini prawf buddsoddi a bennir gan Lywodraeth Cymru ac a fyddai'n ymdrin â materion fel natur buddsoddiadau (gan gynnwys technoleg a daearyddiaeth), enillion derbyniol, arbedion carbon a ffactorau eraill. Gallai'r trefniadau hyn gynnig benthyciadau, buddsoddiadau ecwiti neu'r ddau. Ni allai Llywodraeth Cymru gael cyfran reolaethol neu fwyafrif, a byddai hyn yn fater i reolwyr y gronfa.

Nid yw'r dull hwn yn debygol o ddarparu cyllid yn uniongyrchol i'r rhannau hynny o'r sector cyhoeddus y mae eu cyfrifon wedi'u cyfuno â Llywodraeth Cymru; mae hyn yn cynnwys byrddau iechyd neu Cyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft[10]. Byddai'r pwyslais pennaf felly ar gyrff fel awdurdodau lleol, addysg uwch, addysg bellach ac ysgolion, yn ogystal â'r sector preifat.

Os yw'r dull hwn am fod yn hyfyw, bydd angen i Lywodraeth Cymru ymrwymo i isafswm buddsoddiad (£25M dyweder- er y gellid gwasgaru hwn ar draws mwy na blwyddyn), a byddai'n rhaid i ni allu dangos bod prosiectau hyfyw yn yr arfaeth. Mae ein trafodaethau â phartneriaid buddsoddi strategol wedi awgrymu ysgogi o leiaf 4:1 y gellid ei sicrhau ar lefel cronfa, gan greu cronfa o £100m, gyda chyllid ysgogi pellach yn cael ei gyflwyno gan ddatblygwyr fesul prosiect.

Gallai'r model cyffredinol a gynigir fod yn debyg i Gronfa Werdd Llundain, sy'n gronfa £120 miliwn sy'n seiliedig ar fuddsoddiad cychwynnol a wnaethpwyd yn 2010 gan Awdurdod Llundain Fwyaf, Awdurdod Rheoleiddio Gwastraff Llundain a chyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) sy'n werth cyfanswm o £50m.

---

[10] Pan fo corff, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, yn rhan o gyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru, mae unrhyw fenthyciadau'n cyfrif yn erbyn terfynau gwario. Effaith hyn yw bod pob punt a fenthycir yn golygu bod punt yn llai o grant y Llywodraeth ganolog ar gael.

Pe bai Llywodraeth Cymru, fel buddsoddwr, yn cytuno i gymryd safbwynt ‘colled gyntaf’ yn achos y gronfa, byddai’n debygol y gallem sicrhau cyfraddau llog a fyddai’n gystadleuol o isel gan y buddsoddwyr strategol, a fyddai o’i gyfuno â chyfalaf Llywodraeth Cymru yn galluogi’r gronfa i gynnig benthyciadau neu ecwiti yn is na chyfraddau llog y farchnad. Cafodd dull tebyg ei ddefnyddio yng Nghronfa Effeithlonrwydd Ynni Llundain (LEEF) lle mae awdurdodau lleol wedi defnyddio cyllid LEEF yn hytrach na Public Works Loan Board i ariannu buddsoddiadau effeithlonrwydd ynni. Yn yr enghraifft hon, mae buddiannau ariannol y cyfraddau isel yn aros yn y sector cyhoeddus.

Ochr yn ochr â hyn mae rhai anfanteision.

- Mae perygl y gallai prosiectau unigol fethu ac y byddai rhai cronfeydd yn cael eu colli. Byddai’n rhaid rheoli hyn drwy gyfuniad o ddull portffolio (gwasgaru risg), diwydrwydd dyladwy da, monitro perfformiad y gronfa’n eglur a rheolaidd, ac ymrwymiad o fuddsoddiadau pellach mewn cyfrannau rhesymol.
- Byddai’n rhaid talu costau rheolwr y gronfa. Fel arfer byddai’r rhain tua 1-1.5% o’r cyfalaf a fuddsoddwyd y flwyddyn, er y byddai’r ffigurau gwirioneddol yn seiliedig ar berfformiad a byddent yn cael eu pennu drwy negodi fel rhan o’r broses dendro.

Ni fyddai cymorth gwladwriaethol yn broblem. Mewn egwyddor, ar lefel cronfa, ar yr amod bod rheolwyr y gronfa a’r partner cyffredinol wedi’u penodi ar delerau cystadleuaeth, mae rhagdybiaeth nad oes cymorth gwladwriaethol yn yr amgylchiadau hynny. Byddai angen ystyried cymorth gwladwriaethol ar lefel prosiect pe bai’r gronfa’n cynnig cynnyrch o dan gyfradd y farchnad, er y byddai llawer o fuddsoddiadau’n dod o fewn eithriadau cyffredinol sy’n gysylltiedig â phrosiectau effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a gwastraff. Gallai dibyniaeth ar eithriadau bloc cyffredinol ar gyfer rhai o’r mathau hyn o brosiectau ofyn am strwythur gwahanol ar lefel cronfa.

### *Defnyddio cyfrwng buddsoddi presennol*

Byddai hyn yn cynnwys canfod a gweithio â chronfa neu gronfeydd buddsoddi presennol sy’n arbennig mewn prosiectau twf gwyrdd i greu is-gronfa neu is-gronfeydd Cymreig neu endid tebyg. Mae nifer o fanteision ynghlwm wrth hyn:

- Gallai ddal i ganiatáu dull ysgogi
- Mae’n debyg y byddai cymhlethdod a chost gweithredu yn is na chreu cyfrwng newydd.

Fodd bynnag, byddai dull o’r fath yn ddibynnol ar ganfod cyfrwng sydd â nod a meini prawf buddsoddi tebyg i ni, gyda rheolwyr cronfa a fyddai’n barod i greu is-gronfa Gymreig. Gallai hyn fod yn anymarferol, er bod swyddogion yn dal i edrych ar yr opsiynau, gan gynnwys Cyllid Cymru.

## b. Cymorth gwladwriaethol

Rydym wedi disgrifio nifer o opsiynau sy'n ymwneud â strwythur unrhyw gyfryngau buddsoddi. Beth bynnag fo'r strwythur, boed hynny'n golygu creu cronfa fuddsoddi neu ddim ond buddsoddi ar lefel prosiect yn uniongyrchol. Os byddai cymorth yn cael ei ddarparu ar delerau masnachol, yna ni fyddai ystyriaethau cymorth gwladwriaethol yn codi.

Fodd bynnag, efallai y byddwn yn dymuno darparu cymorth ar delerau ffafriol i annog buddsoddi. Mewn amgylchiadau o'r fath byddai'n rhaid ystyried materion cymorth gwladwriaethol ar lefel prosiect ac yn gysylltiedig ag unrhyw gyfrwng, fel cronfa.

Pe bai cronfa'n cael ei chreu, byddai'n rhaid penodi gweithredwyr neu reolwyr ar y gronfa yn dilyn proses gaffael gystadleuol, sydd wedi'i llunio'n ofalus. Yn yr amgylchiadau hyn ni fyddai dim cymorth gwladwriaethol yn bodoli mewn perthynas â'r gweithredwyr neu reolwyr y gronfa. Yn achos llawer o'r gweithgareddau yr ydym yn eu hystyried mae'n debyg y gallai Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol 2014 fod yn weithredol.[11]

Yn achos y rhan fwyaf o brosiectau mae'n debyg y byddai Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol 2014 hefyd yn rhoi sicrwydd digonol (yn ddibynnol ar natur y prosiect). Hefyd ni fyddai buddsoddiadau mewn cyrff cyhoeddus fel arfer yn cael eu trin fel cymorth gwladwriaethol, ar yr amod bod y corff yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol a bod y cyllid wedi'i gyfeirio at y gweithgareddau hyn.

Yn ymarferol, fodd bynnag (ac i'r graddau bod unrhyw ansicrwydd) efallai y byddem yn dewis mynd trwy'r broses o hysbysu'r Comisiwn.

***Cwestiwn 5***
***A fyddech chi/eich sefydliad yn dymuno cael cyllid o unrhyw rai o'r ffynonellau uchod? Os byddech, pa rai a pham? Rhowch dystiolaeth ategol pan fo hynny'n bosibl.***

***Cwestiwn 6***
***Pa rai o'r opsiynau canlynol ddylai gael eu cynnwys mewn unrhyw ymyriad, a pham? Rhowch dystiolaeth ategol pan fo hynny'n bosibl.***

- Grant ad-daladwy – buddsoddi i arbed neu debyg (cyrff cyhoeddus yn unig).

---

[11] Rheoliad y Comisiwn (EU) N°651/2014 17 Mehefin 2014 sy'n datgan bod categorïau penodol yn gymorth yn gydnaws â'r farchnad fewnol wrth weithredu Erthyglau 107 a 108 o'r Cytundeb.

- Benthyciadau uniongyrchol Llywodraeth Cymru.
- Gweithio â / annog y farchnad fasnachol fesul prosiect. [Mae hyn yn cynnwys creu fframwaith benthyciadau Cymreig neu dynnu i lawr gyfleuster buddsoddi sy’n buddsoddi mewn portffolio o gyfryngau buddsoddi mewn ynni lleol].
- Cyllid ysgogi – creu cyfrwng buddsoddi newydd
- Defnyddio cronfa bresennol

***Cwestiwn 7***
***Ac eithrio grant nad yw’n ad-daladwy, a oes opsiynau cyllido eraill y dylem eu hystyried?***

***Cwestiwn 8***
***Os yw eich sefydliad yn cael ei rwystro rhag cael cyllid o unrhyw un o’r ffynonellau hyn, beth yw’r rheswm am hynny?***

***Cwestiwn 9***
***Beth fyddai’n gwneud eich sefydliad chi’n fwy tebygol o gael gafael ar gyllid (gan ystyried cyfyngiadau rheoliadol ac yn y blaen sy’n gysylltiedig â strwythur y cyllid).***